Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 27 Ionawr 2022 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P R Hood-Williams | D Phillips |
| P M Black | B Hopkins | C L Philpott |
| J E Burtonshaw | D H Hopkins | S Pritchard |
| M C Child | L James | A Pugh |
| J P Curtice | O G James | J A Raynor |
| N J Davies | Y V Jardine | C Richards |
| A M Day | J W Jones | K M Roberts |
| P Downing | M H Jones | B J Rowlands |
| C R Doyle | M Jones | M Sherwood |
| M Durke | P K Jones | P B Smith |
| C R Evans | S M Jones | R V Smith |
| V M Evans | E J King | R C Stewart |
| W Evans | E T Kirchner | D G Sullivan |
| E W Fitzgerald | H Lawson | G J Tanner |
| R Francis-Davies | A S Lewis | M Thomas |
| S J Gallagher | M B Lewis | L G Thomas |
| L S Gibbard | W G Lewis | W G Thomas |
| F M Gordon | C E Lloyd | L J Tyler-Lloyd |
| K M Griffiths | P Lloyd | G D Walker |
| J A Hale | I E Mann | L V Walton |
| D W Helliwell | P M Matthews | T M White |
| T J Hennegan | P N May | |
| C A Holley | H M Morris | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): L R Jones, M A Langstone, R D Lewis a/ac A H Stevens

---

## 92. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog fuddiannau i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fuddiant ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd P Lloyd gysylltiad personol â Chofnod 98 "Mabwysiadu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor".

2) Datganodd y Cynghorydd K M Roberts gysylltiad personol â Chofnod 98 "Mabwysiadu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor". Sylwer: Nid oedd y Cynghorydd K M Roberts wedi cymryd rhan yn y bleidlais ar yr eitem hon.

3) Datganodd y Cynghorydd A Pugh fudd personol a rhagfarnol â Chofnod 98 "Mabwysiadu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor" a gadawodd y cyfarfod wrth i hyn gael ei ystyried.

4) Datganodd y Cynghorydd V M Evans gysylltiad personol â Chofnod 99 "Adnewyddu Tai'r Sector Preifat ac Addasiadau i'r Anabl: Polisi i Ddarparu Cymorth 2022-27”.

5) Datganodd y Cynghorydd K M Roberts gysylltiad personol â Chofnod 99 "Adnewyddu Tai'r Sector Preifat ac Addasiadau i'r Anabl: Polisi i Ddarparu Cymorth 2022-27”. Sylwer: Nid oedd y Cynghorydd K M Roberts wedi cymryd rhan yn y bleidlais ar yr eitem hon.

6) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, P M Black, J E Burtonshaw, M C Child, J P Curtice, N J Davies, A M Day, P Downing, C R Doyle, M Durke, C R Evans, V M Evans, W Evans, E W Fitzgerald, R Francis-Davies, S J Gallagher, L S Gibbard, F M Gordon, K M Griffiths, J A Hale, D W Helliwell, T J Hennegan, C A Holley, P R Hood-Williams, B Hopkins, D H Hopkins, L James, O G James, Y V Jardine, J W Jones, M H Jones, M Jones, P K Jones, S M Jones, E J King, E T Kirchner, H Lawson, A S Lewis, M B Lewis, W G Lewis, C E Lloyd, P Lloyd, I E Mann, P M Matthews, P N May, H M Morris, D Phillips, C L Philpott, S Pritchard, A Pugh, J A Raynor, C Richards, K M Roberts, B J Rowlands, M Sherwood, P B Smith, R V Smith, R C Stewart, D G Sullivan, G J Tanner, M Thomas, L G Thomas, W G Thomas, L J Tyler-Lloyd, G D Walker, L V Walton a T M White gysylltiad personol â Chofnod 6 "Polisi Lwfansau TGCh Cynghorwyr - Mai 2022 a Thu Hwnt".

7) Datganodd y Cynghorwyr A M Day, E W Fitzgerald, P R Hood-Williams, E T Kirchner, C L Philpott, R C Stewart ac L G Thomas fudd Personol a Rhagfarnol â Chofnod 104 "Enwebu'r Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer Etholedig ar gyfer 2022-2023" a gadawsant y cyfarfod wrth iddo gael ei ystyried.

8) Datganodd y Cynghorwyr P M Black, R Francis-Davies, C A Holley ac A S Lewis gysylltiad personol â Chofnod 104 "Enwebu'r Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer Etholedig ar gyfer 2022-2023".

9) Datganodd y Cynghorydd M C Child gysylltiad personol â Chofnod 9 "Cwestiynau gan y Cynghorwyr (Cwestiwn 6).

10) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, J E Burtonshaw, J P Curtice, P R Hood-Williams, L James, J W Jones, P K Jones, E T Kirchner, W G Lewis, P Lloyd, I E Mann, P M Matthews, J A Raynor, C Richards, G J Tanner, L G Thomas, L V Walton a T M White gysylltiad personol â Chofnod 108 "Hysbysiad o Gynnig – Yr Argyfwng Ynni Cenedlaethol".

## 93. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2022.

## 94. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 95. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### a) Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol at Ddinasyddion Abertawe a dderbyniodd ddyfarniadau yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd.

#### a) Cadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (OBE)

i) Yr Athro Tavi Murray. Athro Rhewlifeg Prifysgol Abertawe. Gwasanaethau i ymchwil rhewlifeg a newid yn yr hinsawdd.

#### b) Swyddog Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (OBE)

i) Michael John Walters. Rheolwr Gweithrediadau'r Bad Achub. Bad Achub Glannau Llwchwr. Gwasanaethau i'r gymuned yn Abertawe.

#### c) Aelod Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (MBE)

i) Y Parchedig Steven Bunting. Ficer Eglwys St. Thomas. Gwasanaethau elusennol i'r gymuned yn Abertawe.

ii) Alison Williams. Pennaeth Ysgol Craigfelen. Gwasanaethau i Addysg a'r gymuned yn Abertawe.

iii) Dr. Edward Morgan Roberts DL. Gwasanaethau i feddygaeth ac i'r gymuned yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

**b) CEEQUAL: CQA 670 - Parc Trefol Ffordd y Brenin**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol mai CEEQUAL oedd y cynllun asesu, graddio a gwobrau cynaliadwyedd pennaf ar gyfer prosiectau peirianneg sifil, isadeiledd, tirlunio a mannau cyhoeddus.

Roedd Academi BRE wedi gwirio a chadarnhau bod Parc Trefol Ffordd y Brenin wedi ennill gwobr CEEQUAL. Dyma'r asesiad CEEQUAL cyntaf sydd wedi'i gwblhau a'r cyntaf i 'basio' gan ragori ar hyn mewn gwirionedd wrth gael dyfarniad 'Da'.

Y meysydd a aseswyd o dan y Cleient, Dylunio ac Adeiladu ar gyfer y cynllun oedd:

- Rheoli prosiectau.
- Pobl a Chymunedau.
- Defnydd Tir a Thirwedd.
- Amgylchedd Hanesyddol.
- Ecoleg a Bioamrywiaeth.
- Amgylchedd Dŵr.
- Defnydd o Adnoddau Ffisegol a'r Amgylchedd.
- Trafnidiaeth.

Llongyfarchodd bawb a fu'n rhan o hyn.

**c) Diwrnod Coffáu'r Holocost - 27 Ionawr**

Dywedodd y Llywydd fod heddiw'n ddiwrnod coffa cenedlaethol a neilltuwyd ar gyfer cofio'r chwe miliwn o Iddewon a gollodd eu bywydau yn yr Holocost, tranc miliynau'n fwy a ddioddefodd dan erledigaeth y Natsïaid a'r hil-laddiadau a ddilynodd yn Cambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur.

27 Ionawr yw'r dyddiad y rhyddhawyd gwersyll crynhoi Auschwitz-Birkenau. Gyda'n gilydd, rydym yn dyst i bawb a gafodd eu llofruddio a'u herlid ac rydym yn anrhydeddu goroeswyr y cyfundrefnau hynny a'r holl rai y newidiwyd eu bywydau y tu hwnt i gydnabyddiaeth.

Mae mwy y gallwn ei wneud o hyd i sicrhau ein bod yn byw mewn byd sy'n rhydd o wahaniaethu, gelyniaeth ac erledigaeth.

Roedd yr Holocost wedi ysgwyd sylfeini gwareiddiad a'n lle ni yw sicrhau nad yw hyn byth yn cael ei anghofio a bod cenedlaethau i ddod yn parhau i gofio am y rheini a gollodd eu bywydau.

Mae'r cyngor, ar y cyd ag ysgolion, y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG), Fforwm Rhyng-ffydd Abertawe a Norma Glass MBE wedi recordio seremoni ymlaen llaw sydd ar gael ar dudalen Facebook y cyngor y gallwch ei gweld.

Gwahoddodd bob aelod o'r cyngor i oedi am eiliad o fyfyrio i gofio'r rheini a gollodd eu bywydau yn yr Holocost ac mewn hil-laddiadau dilynol.

**d) Cywiriadau / Diwygiadau i Wŷs y Cyngor**

**i) Eitem 11 "Rhyddid er Anrhydedd Dinas Abertawe"**

Gohiriwyd yr eitem hon oherwydd y ffaith y bydd yn anodd iawn trefnu Cyngor Seremonïol o fewn cyfnod cyfyngedig yng ngoleuni'r Cyfnod Cyn yr Etholiad sy'n dechrau ym mis Mawrth 2022, cyfyngiadau cyfredol COVID, a nifer o Gynghorau Seremonïol eraill yn gorfod cael blaenoriaeth h.y. Urddo'r Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer, y Llynges Fasnachol a'r Etholiad Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022.

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn datgan y dylid rhoi pob penderfyniad ar waith o fewn 6 mis i'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad a chredaf y byddwn yn ei chael hi'n anodd cynnal Cyngor Seremonïol o fewn 6 mis.

**ii) Eitem 12 "Polisi Lwfansau TGCh Cynghorwyr - Mai 2022 a Thu Hwnt"**

Atodiad A. Mae paragraff 8.1 yn cyfeirio at Ddeddf Diogelu Data 1998. Diwygio'r flwyddyn i ddarllen 2018.

**iii) Eitem 15 "Aelodaeth Pwyllgorau"**

Panel Swyddi Gwag y Pwyllgor Safonau
Ychwanegu Mike Lewis, Aelod Cyfetholedig Statudol o'r Pwyllgor Safonau.
Ychwanegu'r Cynghorydd Cymuned Phil Crayford.

## 96. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**a) Penodi Ben Smith yn Gyfarwyddwr Cyllid/Swyddog Adran 151**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Ben Smith wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr Cyllid/Swyddog Adran 151 yn dilyn proses gyfweld. Gwnaed ei benodiad yng Nghyfarfod Arbennig o'r Cyngor yn gynharach y diwrnod hwnnw. Llongyfarchodd y Cynghorydd R C Stewart Ben Smith ar ei benodiad ar ran y cyngor.

Talodd Arweinydd y Cyngor deyrnged hefyd i swyddogion y Tîm Cyllid am eu holl waith, yn enwedig o ran sicrhau bod y grantiau busnes yn cael eu prosesu yn ystod pandemig COVID-19.

Diolchodd Ben Smith i Arweinydd y Cyngor am y gefnogaeth. Dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at barhau i wasanaethu'r cyngor.

**b) Adolygiad Dysgu Mayhill**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at gyhoeddi Adolygiad Dysgu Mayhill yn ddiweddar. Diolchodd i bawb am eu cyfraniad i'r adroddiad a'i argymhellion. Dywedodd fod y cyngor yn derbyn yr argymhellion yn llawn.

## 97. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Cyflwynwyd tri chwestiwn gan aelodau'r cyhoedd. Roedd pob un yn ymwneud â Chofnod 107 "Cwestiynau gan y Cynghorwyr". Roedd un yn ymwneud â Chwestiwn 4 a 2 yn ymwneud â Chwestiwn 11.

Ymatebodd yr Aelod perthnasol o'r Cabinet.

## 98. Mabwysiadu'r Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn amlinellu'r gofyniad i ystyried yn flynyddol a ddylid diwygio neu ddisodli Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor presennol y cyngor a'r gofyniad naill ai i fabwysiadu cynllun newydd neu ailfabwysiadu'r cynllun presennol erbyn 31 Ionawr 2022. Roedd hefyd yn ceisio ailfabwysiadu'r cynllun presennol fel y nodir yn Adran 3 yr adroddiad ar gyfer y cyfnod 2022/23.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd Cymru erbyn hyn) ar 26 Tachwedd 2013, fel y'u diwygiwyd.

2) Nodi'r diwygiadau i'r "Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig" a gynhwysir yn Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a’r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2022 i'w hystyried gan Senedd Cymru ar 18 Ionawr 2022.

3) Nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd gan y cyngor ym mis Tachwedd 2018 ar feysydd dewisol y cynllun presennol.

4) Y bydd meysydd dewisol y cynllun presennol (2021/22) (fel y nodir yn adran 3 o'r adroddiad hwn) yn aros yr un fath ar gyfer y cyfnod 2022/23.

5) Y bydd y cyngor yn mabwysiadu'r cynllun fel y'i nodir yn adran 3 o'r adroddiad hwn, i gynnwys unrhyw ddiwygiadau gorfodol a allai fod yn angenrheidiol o ganlyniad i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2022 yn cael eu cymeradwyo gan Senedd Cymru ac yn dod i rym.

## 99. Polisi i Ddarparu Cymorth: Adnewyddu Tai'r Sector Preifat ac Addasiadau i'r Anabl, 2022-27

Cyflwynwyd adroddiad gan yr adran Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau a oedd yn amlinellu'r diwygiad arfaethedig i Adnewyddu Tai'r Sector Preifat ac Addasiadau i'r Anabl: Polisi i Ddarparu Cymorth 2017-22 i'w gynnwys mewn polisi newydd ar gyfer 2022-27 ac roeddent yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y polisi newydd.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r polisi "Adnewyddu Tai'r Sector Preifat ac Addasiadau i'r Anabl: Polisi i Ddarparu Cymorth 2022-2027" arfaethedig, gan gynnwys y bwriad i ddileu'r prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl bach a chanolig yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

## 100. Strategaeth Gwastraff 2022-2025

Cyflwynwyd adroddiad gan adran Gwella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i fabwysiadu Strategaeth Gwastraff 2022-2025.

**Penderfynwyd:**

1) Mabwysiadu Strategaeth Gwastraff 2022-2025.

## 101. Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Kevin Johns MBE.

Gohiriwyd yr eitem hon oherwydd y ffaith y bydd yn anodd iawn trefnu Cyngor Seremonïol o fewn cyfnod cyfyngedig yng ngoleuni'r Cyfnod Cyn yr Etholiad sy'n dechrau ym mis Mawrth 2022, cyfyngiadau cyfredol COVID a nifer o Gynghorau Seremonïol eraill yn gorfod cael blaenoriaeth h.y. Urddo'r Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer, y Llynges Fasnachol a'r Etholiad Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022.

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi y dylid rhoi pob penderfyniad ar waith o fewn 6 mis i'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad a chredaf y byddwn yn ei chael hi'n anodd cynnal Cyngor Seremonïol o fewn 6 mis.

## 102. Polisi Lwfansau TGCh Cynghorwyr - Mai 2022 a thu hwnt.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Gwasanaethau Digidol a Chwsmeriaid adroddiad ar y cyd a oedd yn gofyn am fabwysiadu Polisi Lwfansau TGCh y Cynghorwyr – Mai 2022 a Thu Hwnt.

**Penderfynwyd:**

1) Caiff "Polisi Lwfansau TGCh Cynghorwyr – Mai 2022 a Thu Hwnt" ei fabwysiadu yn amodol ar y gwelliant a amlinellir yng Nghyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

2) Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol yn darparu arweiniad defnyddiol "Arferion Da" i gynghorwyr, a fydd yn esbonio pynciau megis copïau wrth gefn, cysoni, etc.

3) Dylid ychwanegu hyfforddiant meddalwedd modern.gov at Raglen Sefydlu'r Cynghorwyr.

## 103. Adolygiad o Lawlyfr y Cynghorwyr

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn gofyn am fabwysiadu'r Llawlyfr i Gynghorwyr a adolygwyd yn ddiweddar. Adolygwyd adrannau A - C yng nghyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2022 ac argymhellodd y pwyllgor y diwygiadau i'r cyngor.

**Penderfynwyd:**

1) Bydd y gwelliannau a gynigiwyd gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd fel y'u nodir yn Atodiadau A a B yr adroddiad yn cael eu mabwysiadu.

## 104. Enwebu'r Darpar Arglwydd Faer a'r Darpar Ddirprwy Arglwydd Faer ar gyfer 2022-2023.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn gofyn am enwebiadau ar gyfer yr Arglwydd Faer Etholedig a'r Dirprwy Arglwydd Faer Etholedig er mwyn caniatáu i drefniadau ar gyfer digwyddiad Urddo'r Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer fynd yn eu blaenau.

**Penderfynwyd:**

1) Enwebu'r Cynghorydd Mike Day yn Arglwydd Faer Etholedig ar gyfer 2022-2023.

2) Enwebu'r Cynghorydd Graham Thomas yn Ddirprwy Arglwydd Faer Etholedig ar gyfer 2022-2023.

3) Derbyn enwebiadau'r Cynghorwyr Rob Stewart, Wendy Fitzgerald, Paxton Hood-Williams, Erika Kirchner a Cheryl Philpott ar gyfer rolau'r Arglwydd Faer/Dirprwy Arglwydd Faer i ganiatáu sefyllfa wrth gefn awtomatig pe na bai'r rheini a enwir uchod yn ailsefyll neu'n peidio â chael eu hailethol.

## 105. Aelodaeth Pwyllgorau.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyo'r enwebiadau/diwygiadau i wahanol Gyrff y Cyngor.

**Penderfynwyd** diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

**Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg**
Tynnu enw'r Cynghorydd L S Gibbard
Ychwanegu'r Cynghorydd M B Lewis.

**Panel Swyddi Gwag y Pwyllgor Safonau**
Ychwanegu Mike Lewis, Aelod Cyfetholedig Statudol o'r Pwyllgor Safonau.
Ychwanegu'r Cynghorydd Cymuned Phil Crayford.

## 106. Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith.

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu adroddiad gwybodaeth a oedd yn amlinellu effaith craffu.

**107. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.**

**1) 'Cwestiynau Atodol' Rhan A'**

Cyflwynwyd chwe (6) 'Chwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar y cwestiynau atodol.

**2) 'Cwestiynau Rhan B nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'**

Cyflwynwyd 5 'Cwestiwn Rhan B nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'.

**108. Hysbysiad o Gynnig - Yr Argyfwng Ynni Cenedlaethol.**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A S Lewis a'i eilio gan y Cynghorydd R C Stewart.

*"Mae'r cyngor hwn yn cydnabod yr argyfwng ynni digynsail sy'n wynebu llawer o aelwydydd ledled Abertawe, Cymru a'r DU*. *Yn ystod y misoedd i ddod bydd mwy a mwy o aelwydydd yn gweld cynnydd o faint na welwyd erioed o'r blaen wrth i'r cap ar brisiau gael ei ddileu neu wrth i fargeinion ynni ddod i ben.*

*Daw hyn ar ben argyfwng costau byw a grëwyd gan effeithiau Brexit a'r Pandemig COVID sydd eisoes wedi arwain at bwysau digynsail ar incymau pobl.*

*Mae chwyddiant yn parhau'n uchel iawn sy'n rhoi pwysau enfawr ar gyllidebau aelwydydd gan nad yw enillion wedi mynd bob yn gam â phrisiau, gan olygu bod cyllidebau teuluol yn gyfyngedig a phobl yn waeth eu by*d.

*Mae costau ychwanegol byw o ddydd i ddydd eisoes yn effeithio'n negyddol ar bob aelwyd ar draws Abertawe ond hyd yn oed yn fwy felly ar deuluoedd sy'n byw'n agos at dlodi y mae angen i lawer ohonynt ymweld â banciau bwyd o hyd, a byddant bellach yn wynebu'r dewis ofnadwy o wresogi eu cartref neu roi bwyd ar y bwrdd.*

*Fel cyngor, byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i helpu i liniaru costau ynni drwy gyfeirio preswylwyr at yr opsiynau cymorth ariannol sydd ar gael i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi preswylwyr fel perchnogion cartrefi yn ogystal â'n buddsoddiad sylweddol yng nghartrefi'r cyngor i'w gwneud yn rhatach i'w gwresogi a byw ynddynt.*

*Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi £100 yr un i lawer o aelwydydd ac rydym yn croesawu'r cyfraniad hwn yn y cyfamser gyda'r cyngor yn prosesu hyd at 30,000 o daliadau o'r fath i aelwydydd yn Abertawe.*

*Fodd bynnag, dim ond drwy weithredu pendant gan Lywodraeth y DU y gellir sicrhau'r cymorth sydd ei angen ar deuluoedd i ddelio â'r argyfwng costau byw.*

*Felly, mae'r cyngor hwn yn galw ar Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at y Prif Weinidog a Changhellor y Trysorlys i alw arnynt i weithredu a rhoi'r canlynol ar waith yn ddi-oed:*

- *Gostyngiad mewn TAW ar gyfer Biliau Ynni i helpu teuluoedd a deiliaid tai.*
- *Cyflwyno cap prisiau is newydd ar filiau ynni i amddiffyn aelwydydd rhag codiadau gormodol mewn prisiau.*
- *Cynyddu argaeledd grantiau neu fenthyciadau di-log i annog pobl i fanteisio ar atebion ynni adnewyddadwy fel Solar/PV domestig ar gyfer perchnogion cartrefi preifat a busnesau lleol.*
- *Treth annisgwyl ar gwmnïau ynni i ariannu cynllun grant ledled y DU ar gyfer aelwydydd cymwys i ategu'r gwaith a ddechreuwyd gan gynllun £100 Llywodraeth Cymru."*

Yn unol â Rheol 30 Gweithdrefn y Cyngor sef "Pleidlais", gofynnwyd am bleidlais gofnodedig. Cofnodwyd y bleidlais ar y newid fel a ganlyn:

| **O blaid (57 o gynghorwyr)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| C Anderson | D H Hopkins | C L Philpott |
| J E Burtonshaw | O G James | S Pritchard |
| J P Curtice | L James | A Pugh |
| N J Davies | Y V Jardine | J A Raynor |
| P Downing | J W Jones | C Richards |
| C R Doyle | M Jones | K M Roberts |
| M Durke | P K Jones | B J Rowlands |
| C R Evans | S M Jones | M Sherwood |
| V M Evans | E J King | P B Smith |
| W Evans | E T Kirchner | R V Smith |
| R Francis-Davies | H Lawson | R C Stewart |
| S J Gallagher | A S Lewis | D G Sullivan |
| L S Gibbard | M B Lewis | D W W Thomas |
| F M Gordon | W G Lewis | L G Thomas |
| D W Helliwell | C A Lloyd | M Thomas |
| T J Hennegan | P Lloyd | W G Thomas |
| C A Holley | P M Matthews | L J Tyler-Lloyd |
| P R Hood-Williams | P N May | L V Walton |
| B Hopkins | D Phillips | T M White |

| **Yn erbyn (0 Cynghorwyr)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| - | - | - |

| **Ymatal (0 Cynghorwyr)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| - | - | - |

| Wedi gadael y cyfarfod oherwydd datganiad o gysylltiad personol (0 cynghorwyr) | | |
|---|---|---|
| **Cynghorydd** | **Cynghorydd** | **Cynghorydd** |
| - | - | - |

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellir uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 7.51 pm

**Cadeirydd**